

Adferiadau* a ddargedwir gan sgythru*



Beth ydyn nhw?

Mae llawer o'r deunyddiau deintyddol diweddaraf yn adlynol*, sy'n golygu eu bod yn glynu wrth ddannedd neu'n 'asio' â hwy. Mae angen gwneud arwyneb y dant fymryn yn arw er mwyn i'r adferiad lynu'n llwyddiannus wrth y dant. Gelwir hyn yn sgythru a bydd eich deintydd yn defnyddio asid gwan, hollol ddiniwed. Adferiadau a ddargedwir gan sgythru ydi'r term am unrhyw atgyweiriadau sy'n glynu at y dant yn y modd hwn – naill ai llenwadau*, argaenau*, mewnosodiadau* neu drosgaenau*.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Bydd eich deintydd yn:

- yn gwneud y dant yn ddideimlad weithiau ond does dim angen gwneud hynny bob tro.
- dabio'r asid sgythru ar arwyneb y dant sydd i gael ei wneud yn arw.
- gadael yr asid ar y dant am gyfnod byr tra ydych chi'n cadw eich ceg yn agored.
- golchi'r dant yn drylwyr gyda chwistrelliad o ddŵr, a gaiff ei sugno allan o'ch ceg trwy diwb sydd yn llaw'r nyrs ddeintyddol.
- sychu'r dant ac edrych ar yr arwyneb (efallai y bydd rhaid ei sgythru eto, yn yr un ffordd).
- paentio'r 'asiant asio'* (math o lud) ar yr arwyneb garw, cyn llenwi'r dant, neu adfer y dant mewn rhyw ffordd arall.

Beth ydi'r manteision?

- Gall yr asiad rhwng y dant a'r adferiad fod yn gryf iawn fel bod yr adferiad yn aros yn ei le am amser hir.
- Hyd yn oed pe bai'r asiad yn torri, mae'n bosib ail-lynu'r adferiad yn ei le.
- Oherwydd bod adferiadau'n cael eu dal yn eu lle gan yr asiant asio ac nid yn unig gan siâp y dant, mae llai o'r dant naturiol yn cael ei golli.

GEIRFA: adferiad(au) = restoration(s); adlynol = adhesive; argaen(au), veneer(s); asiant asio = bonding agent; dargedwir gan sgythru = etch-retained; llenwad(au) = filling(s); mewnosodiad(au) = inlay(s); sgythru = to etch/ etching); trosgaen(au) = onlay(s)